

Pris y farchnad – cyfoeth a grym yn prynu dylanwad

I lawer bu ‘Bargen Fawr Galbraith’ a choleddu trachwant yn bris gwerth ei dalu am dwf a ffyniant economaidd, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones...

MAE ein gwleidyddion yn Llundain [ac i raddau yn y Bae a Brwsel] yn daer eu hawydd i sbarduno'r olwyn droed.

Heb os, rydym yn llawer haws ein byd na'n cyndadau ac mewn gwell iechyd ac yn byw yn hirach, er y duedd i orbesgi. Wrth gwrs, gwelwyd ambell i strach fel BSE, HIV, clwy' traed a genau, cig ceffyl a phrinder ambiwlansiau etc.

Ond os ydych chi am weld tystiolaeth glir o'n 'golud', ewch i San Ffagan neu'r Amgueddfa Lechi i weld y newid yn yr offer a'r cysuron yn nhai'r gweithwyr dros y degawdau. Neu ystyriwch driniaeth feddygol cyn dyfodiad gwrthfotigau ac ysbytai cyffredinol ac ati. Pwy yn ei iawn bwyll sydd eisiau troi'r cloc yn ôl?

Ond, yn anffodus, fel y mae chwedl Ffawst yn dangos, yr anhawster mawr ydi ymddihatu ohoni os ydi'r fargen yn suro.

CRONNI ARIAN MEWN YCHYDIG DDWYLO

A finnu eisoes wedi sôn am y peryglon dwys i'r amgylchedd, yn arbennig newid hinsawdd, rhaid nodi'r digwyddiad symbolaidd bwysig-poenus fod lefel CO₂ yn yr awyr wedi cyrraedd 400 rhan ym mhob miliwn yn ddiweddar. Ond mae yna effeithiau cymdeithasol a moesol heriol eraill .

Ers cyn cof mi fuodd yna berthynas agos rhwng arian a grym. Gwelsom fel mae cyfundrefnau modern, mewn gwleddydd mor wahanol â China, yr Unol Daleithiau a Phrydain, yn cronni arian mewn ychydig ddwylo.

Gwerth ail adrodd canlyniad Prifysgol Manceinion yn dangos bod 21 miliwn o filiynau o ddoleri [$\$2.1 \times 10^{13}$] yn cael eu neilltuo a'i guddio gan tua 70,000 yn unig o bobol mewn hafanau di-dreth. Cymharir hyn â chyllid Llywodraeth Cymru o tua £15 biliwn [llai na \$20 biliwn sef $\$2 \times 10^{10}$]; digon felly gan y 70,000 i gynnal ein Cynulliad am fil o flynyddoedd!

Mae cyfoeth a grym yn prynu dylanwad a'r gallu i sicrhau bod llywodraethau'n gwrandao ac yn aml yn ufuddhau. Mae'n eu galluogi i osod yr agenda trwy berchnogaeth o gyfryngau.

Nodwedd arbennig o beryglus ydi eu gallu i hau amheumon gwag i sicrhau eu buddiannau personol. Digwyddodd hyn yn achos peryglon smygu ac mae'n digwydd rwan efo'r diwydiannau olew a glo yn America yn ariannu'r gwrthwynebwyr i newid hinsawdd (gweler llyfr campus **The Merchants of Doubt**).

Mae yna effeithiau eraill treiddgar ond, efallai, llai amlwg. Mae'r dystiolaeth o arbrofion seicolegol yn dangos, er ein bod i gyd yn llai na gonest o dro i dro, mae pobol rymus yn aml yn teimlo'n ddilyffethair, allan o gyrraedd y gyfraith a barn y bobol, ac yn manteisio ar eu statws.

TRYCHINEB BHOPAL YN SARHAD ARNOM I GYD

Rhaid nodi na fu achosion yn erbyn "Fred the Shred" a'i debyg ar ôl i'w trachwant danseilio'r gyfundrefn fancio Brydeinig a chreu dyledion anferth i chi a fi.

Doedd dim achos yn erbyn rheolwyr Americanaidd ar ôl trychineb cemegol Bhopal yn 1984, damwain ddiwydiannol waetha'r byd.

Onid ydi hyn yn sarhad arnon ni i gyd ac yn tanseilio ein syniad o degwch?

Diddorol fydd gweld be ddigwyddith i berchnogion y ffactri dillad a 'chwalodd' yn Bangladesh.

Mae'r drefn hefyd wedi galluogi'r cefnog i ymbellhau oddi wrth bobol gyffredin gan greu nysoedd ar wahân a lleihau undod cymdeithasol. Gwelir hyn mewn ysgolion bonedd, mewn bosces arbennig ar gaeau pêl-droed a rygbi. Penllanw hyn yw'r 'stadau caerog' i'r cyfoethog (y *gated communities*) sydd i'w gweld ar draws yr Unol Daleithiau ac yn Ne Affrica.

Mae'r drefn hefyd yn tueddu i droi pob gweithgaredd yn fath o 'gyfnewid ariannol'. Dim syndod bod golygon personol rhai o'r bobol ar risiau isa' cymdeithas yn culhau a'u digalondid yn cynyddu.

[16 Mai 2013]